DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu (dirybudd)

## Delfryn House, Delfryn Lodge a Rhyd Alun: Cambian Healthcare Limited

21, 22 a 23 Medi 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-5246-6
© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 3
2. Methodoleg ..... 4
3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth ..... 6
4. Crynodeb ..... 7
5. Canfyddiadau ..... 9

Safonau Craidd ..... 9

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl ..... 20

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl ..... 21

6. Y Camau Nesaf ..... 23

Atodiad A ..... 24

## 1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Fonitro'r cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Canolbwynt arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael gwneud dewisiadau ac yn cael eu hannog i wneud hynny
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a gwneud cwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

## 2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweliadau a thrafodaethau cynhwysfawr gyda chleifion, perthnasau, eiriolwyr a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr a staff nyrsio
- Cyfweliadau ag uwch-staff, gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle y bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisïau allweddol a gweithdrefnau
- Arsylwi ar yr amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)[1]
- Archwilio cofnodion yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion, pryderon, ac atgyfeiriadau amddiffyn oedolion agored i niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir

[1] Deddfwriaeth sylfaenol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur. Ymhlith materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal, a chydgysylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

- Ystyried ansawdd y bwyd
- Gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae’r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

## 3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dilynol dirybudd, ym maes iechyd meddwl ac anableddau dysgu, â Delfryn House a Delfryn Lodge yn yr Wyddgrug, gyda'r nos ar 21 Medi a thrwy'r dydd ar 22 a 23 Medi 2015.

Mae Delfryn House a Delfryn Lodge yn ysbyty annibynnol a gofrestrwyd yn gyntaf ym mis Rhagfyr 2005 - cafodd Delfryn Lodge ei gofrestru ym 2010. Ar adeg ein hymweliad, roedd Delfryn House a Delfryn Lodge wedi'u cofrestru i ddarparu gofal ar gyfer hyd at 58 o gleifion, ar ddwy ward a chyfleuster cam-i-lawr (Rhyd Alun). Mae'r ysbyty'n darparu gwasanaeth adsefydlu i gleifion sydd ag anhwylder meddyliol ac a all fod yn gymwys i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Cambian Healthcare Ltd yw darparwr cofrestredig yr ysbyty.

Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom adolygu'r meysydd a nodwyd ar ôl ein hymweliad ym mis Ebrill 2015, gan gynnwys adolygu cofnodion cleifion, cyfweld â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, un adolygydd lleyg, a dau aelod o staff AGIC.

## 4. Crynodeb

Roedd ein hymweliad ym mis Medi 2015 ag Ysbyty Delfryn yn ymweliad dilynol, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar y materion a nodwyd gennym ym mis Ebrill 2015. Roedd yn bleser gennym weld bod gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd ym mis Ebrill. Un mater penodol a oedd yn peri cryn bryder oedd y lefelau staffio, yn enwedig yn Delfryn Lodge. Roedd gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod lefelau staffio'n ddigonol, ac roedd y sefydliad wedi ymgymryd ag ymgyrch recriwtio barhaus er mwyn llenwi swyddi gwag. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff fod y gwelliant i'r lefelau staffio wedi bod o fudd i'r gwaith o redeg/gweithredu'r wardiau, a chadarnhaodd adolygiad o'r rotâu fod y lefelau staffio wedi gwella. Dywedodd rhai cleifion a staff fod angen rhagor o staff, ac y bu adegau pan oedd niferoedd yn isel. Fodd bynnag, roedd prosesau ar waith i ddatrys y problemau hyn. Er bod niferoedd staff wedi gwella'n sylweddol, rydym wedi gofyn i'r ysbyty adolygu'r maes hwn yn rheolaidd.

Roedd yr amgylchedd ar draws yr holl safle'n parhau i fod yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd dodrefn newydd yn y ddwy lolfa a'r ystafell fwyta yn Delfryn Lodge. Roedd problemau ynglŷn â chynnal a chadw'r ffôn talu a'r cyfleusterau golchi dillad wedi cael eu nodi. Mae angen mynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn sicrhau bod yr holl gyfleusterau ar gael ar gyfer y grŵp cleifion.

Nid oedd ffens yr ardd yn Delfryn Lodge wedi cael ei haddasu, a daeth i'r amlwg yn ystod trafodaethau â'r staff bod hon yn broblem sydd angen ei datrys, oherwydd nad oedd yr ardd yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial oherwydd y cyfyngiadau a oedd ar waith. Ar adeg ein harolygiad, roedd cleifion yn cael mynediad at yr ardd bob awr, gyda staff yn goruchwylio'r man hwn oherwydd y perygl o gleifion yn rhedeg i ffwrdd.

Roedd nifer o eitemau bwyd roedd eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio yn cael eu storio yn yr oergelloedd yn Delfryn Lodge a Rhyd Alun. Roedd bara wedi llwydo yn y bin bara, a siwgr mewn cynhwysydd agored ar silff ffenestr yn Delfryn Lodge, ac roedd briwsion bwyd yn y cypyrddau - a oedd angen eu glanhau ar frys.

Roedd y teclynnau galw newydd sy'n cael eu defnyddio yn Delfryn Lodge wedi helpu i leihau digwyddiadau, a staff yn dweud eu bod yn llai ymwthiol - ac ni ddywedodd yr un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw nad oedd eu galwadau larwm yn cael eu hystyried o ddifri.

Roedd y ddau glinigydd cyfrifol newydd eu penodi wedi galluogi gofal cyson ar gyfer cleifion, ac ar wahân i ddau glaf, roeddent wedi adolygu pob asesiad galluedd cleifion.

Ni welsom dystiolaeth bod yr ysbyty wedi derbyn gwybodaeth briodol ynglŷn â gwybodaeth, sgiliau a phrofiad rhai o'r staff asiantaeth.  Mae'n hanfodol bod gwybodaeth am staff asiantaeth, yn enwedig eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad, yn cael ei derbyn a'i gwirio cyn iddynt ddechrau gweithio yn yr ysbyty.

Roedd yn bleser gennym nodi bod goruchwyliaeth staff a ddogfennir wedi cynyddu, ac roedd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer y rhan fwyaf o’r staff. Roedd nifer o staff o hyd ar draws yr ysbyty nad oedd eu dogfennaeth arfarnu wedi cael ei diweddaru.  Mae'n rhaid cynnal a dogfennu arfarniad ar gyfer pob aelod o staff.

Roedd staff yn derbyn hyfforddiant ar anhwylderau personoliaeth gan staff yr adran seicoleg, ac roedd hyfforddiant arall yn benodol i'r gwasanaeth ar yr amserlen.  Roedd hyfforddiant sy'n berthnasol i'r gwasanaeth yn cael croeso da gan y staff, a oedd yn ei gael yn werthfawr ac yn fuddiol.  Roedd staff ac ystadegau'n cadarnhau bod hyfforddiant gorfodol wedi gwella. Fodd bynnag, nodwyd bod gwybodaeth a dealltwriaeth, yn enwedig mewn perthynas â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru), yn gyfyng, ac mae hwn yn faes sydd angen sylw.

## 5. Canfyddiadau

### *Safonau Craidd*

**<u>Amgylchedd y ward</u>**

Mae Delfryn Lodge yn uned ac iddi 25 gwely, sydd mewn adeilad ar wahân i Delfryn House a Rhyd Alun. Mae Delfryn Lodge yn adeilad dau lawr sy'n darparu llety ar gyfer cleifion a chyfleusterau ar gyfer therapïau a gweithgareddau cleifion.

Wrth gyrraedd Delfryn Lodge, rydych yn mynd i mewn i dderbynfa fawr a golau. Y tu mewn i'r man hwn, mae ystafell fwrdd, ystafell ymwelwyr, seddi, a thanc pysgod mawr. O'r dderbynfa, gellir cyrraedd swyddfeydd staff, ystafell gyfarfod, a salon y cleifion. Mae drws arall yn arwain o'r dderbynfa i'r ward.

Wrth fynd i mewn i'r ward, rydych yn cyrraedd lle mawr, agored ac ynddo seddi. Roedd ffenestri'n rhoi golwg o'r man awyr agored, ac roedd oerydd dŵr ar gael at ddefnydd y cleifion. Yn y man hwn, roedd ystafell ac ynddi ffôn talu. Yn anffodus, nid oedd y ffôn yn gweithio yn ystod ein hymweliad. Fodd bynnag, yn ystod ein sesiwn adborth, dywedodd y staff wrthym fod y ffôn bellach yn gweithio.

Mae coridor yn arwain at nifer o ystafelloedd eraill, gan gynnwys ystafelloedd gwely cleifion, swyddfa nyrsys, clinig, ystafell fwyta, ystafell synhwyraidd, a lolfa'r cleifion, ac roedd mynediad i'r ardd y tu allan.

Gwnaethom edrych ar ystafell wely wag ar y llawr daear a sylwi ar y lle roedd yr ystafell yn ei gynnig. Roedd dau gwpwrdd er mwyn i'r cleifion storio eu dillad a'u heiddo arall, a dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt ddigon o le storio yn eu hystafelloedd gwely. Yn yr ystafell, roedd gwely sengl, cabinet ar bwys y gwely, a desg. Roedd gan bob ystafell gawod en-suite a system larwm galw am nyrs.

Roedd baddon yn Delfryn Lodge pe bai cleifion yn dymuno defnyddio'r cyfleuster hwn.

Roedd gan gleifion fynediad at yr ardd trwy'r lolfa ar y llawr daear. Roedd gwylfa bren fawr yn yr ardd, a seddi yr oedd y cleifion yn eu defnyddio fel cysgodfa ysmygu. Roedd yr ardd wedi'i chynnal a'i chadw'n dda, a phlanhigion ar yr ymylon, ac roedd llwybr yn rhoi ffordd i gleifion o wneud ymarfer corff heb gerdded ar y glaswellt. Roedd cleifion yn cael mynediad at yr ardd ar adegau penodol yn unig oherwydd uchelder y ffens. Ers ein hymweliad blaenorol ym mis Ebrill 2015, nid oedd unrhyw waith wedi cael ei

wneud i newid y ffens er mwyn rhoi mynediad agored at yr ardd i'r cleifion. Dywedodd rhai staff nad oedd yr ardd yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial oherwydd y mynediad cyfyngedig.

Roedd yn bleser gennym nodi, ers ein hymweliad blaenorol ym mis Ebrill 2015, roedd y dodrefn wedi cael eu newid yn y ddwy lolfa a'r ystafell fwyta yn Delfryn Lodge. Roedd yr ystafell fwyta'n darparu digon o fyrddau a chadeiriau, a oedd yn galluogi'r cleifion a'r staff i fwyta gyda'i gilydd. Roedd y fwydlen yn cael ei harddangos ar bwys yr agoriad gweini, ac roedd posteri a oedd yn rhoi cyngor ar ddeiet wedi'u harddangos hefyd. Hefyd, roedd oerydd dŵr yn yr ystafell fwyta.

Roedd cleifion yn gallu cael mynediad at y gegin chwarter awr wedi'r awr. Yn ystod ein hymweliad, roedd bwyd roedd ei ddyddiad dod i ben wedi mynd heibio'n cael ei storio yn yr oergelloedd, bara wedi llwydo yn y bin bara, a siwgr yn cael ei storio mewn cynhwysydd agored ar y silff ffenestr. Yn ogystal, roedd briwsion bwyd yn y cypyrddau, ac roedd angen eu glanhau'n drwyadl.

Roedd taflen ar gyfer cofnodi tymereddau'r ddwy oergell yn y gegin therapi. Roedd y tymereddau ar gyfer 21 Medi wedi'u cofnodi, ond ni ellid dweud i ba oergell roedd yr hyn a gofnodwyd yn ei berthyn. Yn ogystal, nid oedd tymheredd wedi cael ei gofnodi ar gyfer pob dyddiad ar y daflen. Mae'n hanfodol bod tymereddau'n cael eu cofnodi'n ddyddiol, a bod modd nodi i ba oergell y maent yn eu perthyn.

I fyny'r grisiau yn Delfryn Lodge, roedd 16 ystafell gleifion, lolfa i gleifion ac ynddi set deledu, bwrdd pŵl, ac oerydd dŵr. Roedd rhywfaint o le swyddfa ar gyfer y gwasanaeth therapi galwedigaethol a disgyblaethau eraill, ac roedd ystafell therapi/celf a chrefft, a oedd wedi'i chyfarparu ag offer ffitrwydd, deunyddiau celf a chrefft, offerynnau cerddorol, a pheiriant gwnïo.

Ar adeg ein hymweliad, roedd Delfryn Lodge, ar y cyfan, yn lân, yn daclus ac ynddi ddigon o olau. Roedd nifer o luniau a hysbysfyrddau wedi cael eu harddangos yn Delfryn Lodge drwyddi draw, ac roedd y wybodaeth arnynt yn cynnwys gwybodaeth am bethau megis y gwasanaeth eiriolaeth, swyddi i gleifion, ac amserlen gweithgareddau.

Mae Rhyd Alun yn gyfleuster cam-i-lawr i fenywod wedi'i leoli ar safle Delfryn. Gall y tŷ roi llety i hyd at chwe chlaf, ond ar adeg ein hymweliad roedd tri chlaf yn byw yno.

Roedd Rhyd Alun yn cynnig amgylchedd i'r grŵp cleifion lle roedd llai o ymyrraeth gan staff, ac a oedd yn galluogi cleifion i fod yn fwy annibynnol. Wrth inni fynd i'r tŷ, gwelsom batio taclus ac arno blanhigion a phrysgwydd.

Roedd lle ar y patio er mwyn i gleifion eistedd pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Roedd pum ystafell wely i gleifion i fyny'r grisiau yn Rhyd Alun ac un ystafell wely i lawr y grisiau. Roedd y cyntedd yn arwain at swyddfa staff, ystafell ymwelwyr ac ystafell TG, cegin/ystafell fwyta, a lolfa i gleifion. Roedd ffôn talu, a oedd yn gweithio, ar gael yn y coridor. Roedd hysbysfyrddau'n arddangos amrywiaeth o wybodaeth ynglŷn â'r canlynol: sut i wneud cwyn, swyddi i gleifion, eiriolaeth, rheoli heintiau, a gwybodaeth ar fwyta'n iach.

Roedd y lolfa gymunedol yn gartrefol ac ynddi lampau, seddi, clustogau, planhigion, set deledu, a chwpwrdd ar gyfer storio DVDau. Roedd yr ystafell wedi'i haddurno'n chwaethus ac yn darparu amgylchedd ymlaciol.

Roedd digon o le mewn cypyrddau yn y gegin/ystafell fwyta i gleifion storio eitemau o fwyd. Roedd bwrdd cinio mawr a digon o gadeiriau ar gael er mwyn i gleifion bwyta gyda'i gilydd, ac roedd basged o ffrwythau ar gael ar y bwrdd cinio. Roedd nifer o eitemau bwyd wedi'u storio yn yr oergell roedd eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio. Mae'n rhaid rhoi sylw i'r mater hwn a'i adolygu'n rheolaidd.

Ar bwys y gegin, roedd cyfleusterau golchi dillad a oedd yn galluogi'r grŵp cleifion i olchi eu dillad. Roedd yr amgylchedd yn Rhyd Alun drwyddi draw yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda.

Mae Delfryn House yn uned ac iddi 28 gwely ar gyfer dynion, a leolir ar wahân i Delfryn
Lodge. Adeilad dau lawr sy'n amgylchynu iard yw Delfryn House. Ni wnaethom gynnal archwiliad o'r amgylchedd yn ystod ein hymweliad, ond treuliwyd amser yn y tŷ yn ystod yr ymweliad arolygu, a gwnaethom nodi bod yr amgylchedd yn lân a bod y cyfleusterau'n gweithio'n dda.

**Camau gofynnol**

Mae angen i'r holl eitemau bwyd sy'n cael eu storio mewn oergelloedd gael eu gwirio'n rheolaidd, er mwyn sicrhau eu bod o fewn y dyddiad dod i ben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Mae angen cynnal gwiriadau bwyd a glendid yn y gegin therapi yn Delfryn Lodge, yn benodol i sicrhau bod cypyrddau yn lân ac yn rhydd rhag briwsion bwyd, bod siwgr yn cael ei storio mewn cynwysyddion caeedig, a bod yr holl fwyd mae ei ddyddiad dod i ben wedi mynd heibio'n cael ei waredu mewn ffordd briodol.

Mae'n rhaid cofnodi tymheredd pob oergell bob dydd, ac mae'n rhaid i'r daflen gofnodi nodi'n eglur pa dymheredd sy'n perthyn i ba oergell.

Mae angen trwsio'r ffôn talu yn Delfryn Lodge er mwyn i'r cleifion ei ddefnyddio.

Mae angen adolygu'r materion sy'n rhwystro mynediad i ardd Delfryn Lodge, yn enwedig uchelder y ffens.

**Diogelwch**

Ar ôl ein hymweliad ym mis Ebrill 2015, roedd yn bleser gennym nodi bod niferoedd staff, gan gynnwys staff cymorth gofal, wedi gwella'n sylweddol. Gwnaeth staff gadarnhau bod gwelliannau wedi'u gwneud ynglŷn â niferoedd staff ar ddyletswydd, a gwnaeth adolygiad o rotâu dyletswydd ddangos bod niferoedd wedi gwella. Bu digwyddiad yn ddiweddar yn Delfryn Lodge pan nad oedd un aelod o staff wedi cyrraedd oherwydd salwch ar fyr rybudd. Er bod lefelau staffio wedi gwella'n sylweddol, mae'n rhaid adolygu'r maes hwn yn barhaus.

Roedd Delfryn Lodge yn defnyddio teclynnau galw a oedd yn crynu pe bai angen cymorth ar staff. Dywedodd staff fod y teclynnau newydd wedi lleihau digwyddiadau oherwydd eu bod yn llai ymwthiol na'r systemau larwm.

**Y tîm amlddisgyblaethol**

Lleisiwyd pryderon ym mis Ebrill 2015 ynglŷn â'r newidiadau rheolaidd i staff meddygol. Fodd bynnag, yn ystod ein hymweliad ym mis Medi, roedd yn bleser gennym nodi bod dau glinigydd cyfrifol wedi cael eu recriwtio, gan sicrhau cysondeb ynglŷn â staff clinigol ar gyfer y grŵp cleifion. Ar adeg ein hymweliad, dywedwyd wrthym na fuasai seicolegydd yn Delfryn House ers mis Gorffennaf, ond roedd cynorthwyydd seicoleg ar gael.

Dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw fod y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio mewn ffordd broffesiynol a chydweithredol. Dywedodd staff eu bod yn cael eu holi ynglŷn â'u barn broffesiynol, a bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

**Preifatrwydd ac urddas**

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun, a oedd yn cynnwys cyfleusterau en-suite. Roedd yr ystafelloedd gwely'n cynnig digon o le storio, ac roedd cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd â lluniau a phosteri. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gallu cloi eu hystafelloedd, a bod staff yn parchu eu preifatrwydd a'u hurddas ar y cyfan.

Roedd cyfleusterau ar gael er mwyn i gleifion dreulio amser gyda'u teulu a'u ffrindiau, ac roedd ystafelloedd ymwelwyr yn Delfryn Lodge a Delfryn House.

Ar adeg ein hymweliad, nid oedd y ffôn talu'n gweithio yn Delfryn Lodge, a rhoddwyd sicrwydd gan y tîm rheoli yn ystod y cyfarfod adborth y byddai'r ffôn yn cael ei atgyweirio. Roedd cleifion yn gallu defnyddio eu ffonau symudol eu hunain i gysylltu â theulu a ffrindiau.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt nyrs a enwir a'u bod yn gallu cwrdd â hi mewn preifat. Fodd bynnag, dywedodd un claf yn Delfryn House nad oedd ganddo nyrs a enwir, ac roedd y nyrs a enwir a oedd wedi cael ei dynodi ar gyfer un claf newydd yn Delfryn Lodge yn gweithio ar y sifft nos ar adeg ein hymweliad. Gan fod y claf hwn yn mynegi teimladau o bryder a pheidio â theimlo'n ddiogel, gwnaethom gwestiynu addasrwydd dynodi nyrs a enwir a oedd yn gweithio ar y sifft nos, pan oedd yn amlwg bod angen cryn dipyn o fewnbwn gan nyrs a enwir ar y claf yn ystod y dydd oherwydd ei hamgylchedd newydd.

Dywedodd tua hanner y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn Delfyn House, a'r hanner arall yn dweud nad oeddent. Roedd y rhesymau a nodwyd gan gleifion dros beidio â theimlo'n ddiogel yn cynnwys ymddygiad un claf, yn enwedig ei ymddangosiad ar adeg ein hymweliad, a diffyg staff.

Ni wnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw leisio unrhyw bryderon ynglŷn â'r amgylchedd - o ran urddas a phreifatrwydd cleifion a’r defnydd o le - ar wahân i’r broblem ynglŷn â mynediad at yr ardd yn Delfryn Lodge.

**<u>Therapïau a gweithgareddau i gleifion</u>**

Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw sylwadau cadarnhaol am y therapïau a’r gweithgareddau a oedd ar gael i gleifion. Roedd hysbysfyrddau o gwmpas safle Delfryn a oedd yn arddangos cyfleoedd swyddi â thâl, ac roedd partneriaeth ddiweddar â thîm pêl-droed wedi arwain at gyfleoedd i gleifion wneud gwaith gwirfoddol yn y clwb pêl-droed.

Dywedodd staff therapi galwedigaethol wrthym fod llawer o gyfleoedd yn cael eu datblygu - roedd un ohonynt yn ganolfan gwaith ar gyfer cleifion. Bwriad y ganolfan fyddai cynnig cyfleoedd ar gyfer gwaith gwirfoddol a gwaith â thâl i gleifion. Byddai'r ganolfan yn cael ei sefydlu ar ffurf canolfan gwaith go iawn, a gofyn i gleifion lenwi ffurflenni cais a mynychu cyfweliadau. Y gobaith oedd y byddai'r fenter hon hefyd yn helpu i wella profiad y claf yn ystod y broses o baratoi i ailymuno â'r gymuned.

Dywedodd staff a chleifion wrthym am gynllun ffitrwydd o'r enw 'ffitrwydd at yr haf' a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf. Roedd gwobrau yn cael eu cynnig er mwyn annog y cleifion i gyflawni eu hamcanion. Yn ogystal â rhai o'r mentrau, roedd amserlen o weithgareddau rheolaidd ar gael, ac roedd gan gleifion eu hamserlen bersonol o therapïau a gweithgareddau.

Un o'r cyfleusterau ar oedd ar gael yn Delfryn Lodge oedd salon gwallt a harddwch. Roedd y cyfleuster ar agor bob dydd Iau ac yn cynnig amrywiaeth eang o driniaethau gwallt a harddwch. Roedd y therapydd harddwch yn cynnal gweithdai yn y bore ac apwyntiadau yn y prynhawn.

Roedd y staff yn siarad mewn ffordd gadarnhaol am y gweithgareddau a oedd ar gael i gleifion, a oedd yn cynnwys sesiynau gyda hyfforddwr personol; grŵp cerdded a gweithgareddau ymarfer corff a hamdden eraill; teithiau i'r sinema leol, i'r ali fowlio leol ac i leoedd lleol o ddiddordeb; a gweithgareddau siopa a choginio. Gwnaeth trafodaethau â rhai cleifion ddangos bod gan y rhan fwyaf o gleifion ddigon i'w wneud, ac roeddent yn mwynhau celf a chrefft, badminton, a thennis.

Roedd barn rhai cleifion i'r gwrthwyneb. Gwnaethant ddweud wrthym nad oedd llawer i'w wneud os nad oes ganddynt unrhyw absenoldeb Adran 17. Dywedodd un claf wrthym fod y gweithgareddau'n cael eu cynnal pan oedd yr operâu sebon ar y teledu, ac roedd yn well gan y cleifion wylio'r rhain. Roedd gweithgareddau ar y penwythnos hefyd yn broblem ar gyfer rhai cleifion. Dywedwyd wrthym fod y cypyrddau therapi galwedigaethol o dan glo ar y penwythnos, ac os nad oedd gan y cleifion absenoldeb Adran 17, ychydig iawn a oedd i'w wneud ar y ward. Fodd bynnag, cadarnhaodd staff fod gweithgareddau ar gyfer cleifion yn cael eu cynnal ar y penwythnos. Mae staff therapi galwedigaethol yn darparu gwasanaeth bob dydd Sadwrn a phob yn bedwerydd dydd Sul.

Dywedodd rhai staff wrthym, er bod llawer o weithgareddau grŵp ar gael i'r grŵp cleifion, roedd yn anodd ysgogi rhai cleifion i gymryd rhan ac i ymgysylltu. Mae staff therapi galwedigaethol yn newid yr amserlen yn rheolaidd, gan ystyried hoffterau'r grŵp cleifion. Cadarnhaodd cleifion eu bod wedi cael eu holi ynglŷn â'r gweithgareddau a'r therapïau yr oeddent am eu gwneud. Er i staff ddweud wrthym eu bod yn ceisio ennyn diddordeb cleifion mewn modd rhagweithiol, roedd rhai staff yn teimlo y gellid gwneud gwelliannau, er mwyn sicrhau bod gweithwyr cymorth a staff therapi galwedigaethol yn gweithio gyda'i gilydd i ysgogi a galluogi cleifion i gymryd rhan yn eu gweithgareddau a'u therapïau, yn y ffordd fwyaf gweithgar ag y bo modd.

Roedd cysylltiadau gweithio gwell rhwng y staff seicoleg a staff therapi galwedigaethol wedi cael eu datblygu ymhellach. Roedd hyn wedi arwain at greu grŵp rheoli pryder ar gyfer cleifion. Roedd grwpiau/sesiynau therapi eraill yn yr arfaeth ar gyfer y dyfodol agos, a fyddai'n cynnwys grŵp 'clywed lleisiau' ac ymwybyddiaeth fyfyriol.[2] Roedd y cleifion yn gwerthfawrogi

[2]Mae ymwybyddiaeth fyfyriol yn ddull integreiddiol, sy'n seiliedig ar y meddwl a'r corff, sy'n helpu pobl i reoli eu meddyliau a'u teimladau. Mae defnydd o'r dull hwn yn mynd yn fwy cyffredin mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae NICE yn ei argymell fel arfer ataliol ar gyfer pobl sy'n dioddef o byliau cylchol o iselder. Mae mwy o wybodaeth yn http://www.mentalhealth.org.uk/help-information/mental-health-a-z/M/mindfulness/

mewnbwn gan staff seicoleg – a dau ohonynt yn cadarnhau eu bod wedi gwneud cynnydd o ganlyniad.

Roedd sesiynau lles eraill yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar gyfer y grŵp cleifion, a oedd yn cynnwys clinig lles merched a chlinig lles dynion, a chymorth i roi'r gorau i ysmygu ac i fwyta'n iach. Roedd cleifion yn cael eu pwyso'n rheolaidd, a dywedodd staff fod cysylltiadau da wedi cael eu sefydlu â'r meddyg teulu lleol. Dywedodd rhai cleifion, er nad oedd unrhyw broblemau ynglŷn â gofyn am apwyntiad gyda'r meddyg teulu, y deintydd a'r optegydd ac ati, roedd rhai ohonynt wedi profi aros hir oherwydd bod staff wedi anghofio gwneud a chadw apwyntiadau. Dywedodd un claf wrthym ei fod wedi gofyn i staff wneud apwyntiad i weld y meddyg teulu, ond nid oedd yn credu bod un wedi cael ei wneud gan nad oedd wybodaeth wedi cael ei rhannu ag ef ynglŷn â'r apwyntiad. Argymhellir bod staff yn adolygu'r sefyllfa hon ac adrodd am y canfyddiadau ynglŷn â pha mor hir y mae'r cleifion yn aros am apwyntiad, a'r dulliau a ddefnyddir i hysbysu cleifion am wybodaeth ynglŷn ag apwyntiadau.

Roedd cleifion yn cael eu hannog i olchi eu dillad eu hunain, ac roedd cyfleusterau ar gael er mwyn i gleifion wneud hyn. Fodd bynnag, dywedodd rhai cleifion yn Delfryn Lodge nad oedd y peiriannau golchi dillad yn ddigon cryf i ymdopi â'r galw, gan fod un peiriant nad oedd yn gweithio bob amser. Yn ogystal, roedd amserlen golchi dillad ar waith, ac roedd cleifion yn cael dau slot bob wythnos i olchi eu dillad – fodd bynnag, cwynodd rhai o’r cleifion nad oedd pobl yn cadw at yr amserlen. O'r herwydd, roedd slotiau'n cael eu colli, neu roedd claf arall yn defnyddio'r peiriant yn lle'r un a oedd i fod i ddefnyddio'r cyfleusterau. Mae angen cynnal adolygiad o'r cyfleusterau golchi dillad er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon cryf i ymdopi â'r galw i olchi dillad, ac adolygiad o'r amserlen golchi dillad i sicrhau cysondeb.

Gwelwyd bod lefel dda o gymorth gan wasanaethau eiriol yn Ysbyty Delfryn drwyddi draw. Roedd hysbysfyrddau yn arddangos posteri ynglŷn â gwasanaethau eiriolaeth mewn lleoedd amlwg, gan gynnwys manylion cyswllt. Roedd pob aelod o staff y gwnaethom siarad ag ef ond un yn gallu dweud wrthym am y trefniadau eiriolaeth ar gyfer cleifion. Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaeth eiriolaeth a oedd ar gael iddynt, ac roedd rhai cleifion yn defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd. Mae'n bwysig bod pob aelod o staff yn gwybod am y gwasanaeth eiriolaeth er mwyn cefnogi cleifion.

**Camau gofynnol**

Mae angen adolygiad o apwyntiadau gofal iechyd allanol, er mwyn darganfod pa mor hir mae cleifion yn aros am apwyntiadau, a'r dulliau a ddefnyddir i hysbysu cleifion am wybodaeth ynglŷn ag apwyntiadau.

Mae angen adolygiad o gyfleusterau golchi dillad yn Delfryn Lodge, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon cryf i ymdopi â'r galw i olchi dillad, ac adolygiad o'r amserlen golchi dillad i sicrhau cysondeb.

**<u>Bwyd a maeth</u>**

Roedd y bwyd a oedd yn cael ei ddarparu ar gyfer cleifion ar draws safle Ysbyty Delfryn ar adeg ein hymweliad i'w weld yn flasus. Roedd bwydlenni'n newid bob tymor, ac roedd bwydlen bum wythnos yn cael ei darparu. Roedd y fwydlen, sy'n cynnig dewis i giniawyr, yn cael ei harddangos yn yr ystafell fwyta – a gwnaeth cleifion a staff gadarnhau bod hyn yn wir.

Roedd pedwar pryd o fwyd yn cael eu darparu ar gyfer cleifion bob dydd, gan gynnwys brecwast, cinio, te a swper. Roedd staff hefyd yn cael prydau bwyd am ddim, ac yn ystod amser cinio roeddent yn bwyta gyda'r cleifion.

Roedd trefn hunanwasanaeth ar gyfer brecwast yn y ceginau therapi, ac roedd dewis o rawnfwydydd, tost, a the a choffi ar gyfer y cleifion. Ar rai boreau, roedd staff therapi'n cynnig dewis o frecwast poeth llawn i gleifion. Roedd y prif bryd o fwyd yn cael ei weini amser cinio, ac roedd dau gwrs ar gael yn ogystal â dau opsiwn. Roedd saladau a thatws pob hefyd ar gael fel opsiwn arall i'r prif bryd o fwyd. Roedd pwdin poeth yn cael ei weini ddwywaith yr wythnos. Roedd iogyrtiau a phwdin arall ar gael bob dydd, ac roedd ffrwythau ffres ar gael yn ogystal â sgwosh heb siwgr. Roedd byrbryd ysgafn ar gael amser te. Ar 23 Medi, roedd bara pita gyda salad a chyw iâr ar gael. Roedd cawl hefyd ar gael ar rai nosweithiau, yn ogystal ag iogyrt a ffrwythau – ac roedd grawnfwydydd a thost ar gael amser swper.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion y gwnaethom siarad â nhw yr hoffent gael eu prif bryd o fwyd amser te yn hytrach nag amser cinio, gan fod chwant bwyd arnynt nes ymlaen yn y gyda'r nos. Buasai cyfnod pan oedd cleifion yn archebu bwyd i fynd yn y gyda'r nos – ar adeg ein hymweliad, roedd yr arfer hwn wedi cael ei leihau i ddwywaith yr wythnos.

Roedd cleifion a staff yn uchel eu canmoliaeth am y staff arlwyo, gan ddweud bod anghenion deietegol yn cael eu diwallu. Hoffai rhai cleifion weld rhagor o opsiynau llysieuol, ond ar y cyfan, roedd pob aelod o staff yn cytuno bod y prydau bwyd a oedd yn cael eu gweini o safon dda, yn faethlon ac yn amrywiol. Dywedodd staff arlwyo eu bod yn defnyddio cyflenwyr lleol a bod y bwyd o ansawdd uchel, ac roeddent yn osgoi bwyd wedi'i rewi a bwyd wedi'i brosesu cymaint ag y bo modd.

Dywedodd staff arlwyo fod y bwyd a oedd yn cael ei weini yn amrywiol ac yn anturus, ac y byddent yn arbrofi â'r ffasiynau newydd gan eu bod am wneud y bwyd mor gyffrous ag y bo modd. Os nad yw cleifion yn hoffi'r hyn sy'n cael ei

weini, byddai staff arlwyo ei dynnu o'r fwydlen. O ganlyniad i gyfarfodydd cleifion, cafodd far pasta ei ddatblygu a oedd ar gael amser cinio.

Roedd cleifion yn gallu prynu eu diodydd a'u byrbrydau eu hunain a'u storio yn eu hystafell wely neu yn y cypyrddau yn y gegin therapi. Dywedodd rhai cleifion wrthym fod cleifion eraill wedi mynd ag eitemau yr oedden nhw wedi'u storio yn y gegin therapi. Mae angen rhoi sylw i'r sefyllfa hon er mwyn ei hatal rhag digwydd.

**Camau gofynnol**

Mae angen adolygiad o'r prydau bwyd sy'n cael eu gweini yn Delfryn Lodge, er mwyn darganfod a fyddai cael y prif bryd o fwyd amser te yn hytrach nag amser cinio yn diwallu anghenion y grŵp yn well.

Mae angen adolygiad o'r eitemau sy'n cael eu storio yn y gegin therapi, er mwyn darganfod sut mae cleifion eraill yn mynd ag eitemau, a phenderfynu pa gamau a roddir ar waith er mwyn atal hyn.

**<u>Hyfforddiant</u>**

Gwnaeth adolygiad o ffeiliau deg aelod o staff ddangos yr arfer da parhaus roedd Delfryn yn ei ddefnyddio er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn yr holl ffeiliau'n gyson. Roedd y ffeiliau a adolygwyd wedi'u trefnu'n dda ac wedi'u rhannu'n adrannau er mwyn dod o hyd i wybodaeth yn hawdd. Roedd ffurflen gais yn y ffeiliau a adolygwyd, ffurflen asesu cyfweliad, dau eirda, contract, llythyr cynnig, a gwybodaeth arall sydd ei hangen cyn dechrau gwaith. Roedd y rhain y dangos bod y broses ymgeisio a recriwtio’n gyson.

Roedd system ar waith ar gyfer cofnodi gwybodaeth yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a gwnaethom nodi a chymeradwyo'r arfer da roedd Ysbyty Delfryn wedi'i fabwysiadu ar gyfer adnewyddu gwiriadau'r staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rheolaidd. Mae'r arfer hwn yn sicrhau bod gwiriad annibynnol gan yr ysbyty, sy'n helpu i ehangu gallu'r sefydliad i asesu gonestrwydd a chymeriad ei staff.

Roedd tystiolaeth yn ffeiliau'r staff a chanddynt gymwysterau proffesiynol a oedd yn dangos bod y cymwysterau hyn yn gyfredol ac yn ddilys.

Roedd gwelliant wedi'i wneud ers mis Ebrill 2015 er mwyn sicrhau bod staff yn derbyn goruchwyliaeth a ddogfennir yn rheolaidd. Dywedodd bron i bob aelod o staff y gwnaethom siarad â nhw ar draws safleoedd Delfryn eu bod wedi derbyn goruchwyliaeth reolaidd rhwng pob pedair a phob chwe wythnos, ac roedd system ar waith i gofnodi'r dyddiadau roedd staff wedi derbyn goruchwyliaeth. Roedd y ffeiliau staff a adolygwyd yn dangos bod pedwar o

bob deg aelod o staff wedi cael sesiwn oruchwylio ym mis Medi, a phedwar wedi derbyn eu goruchwyliaeth o fewn y tri mis diwethaf.

Ychydig o welliant yn unig a fu ynglŷn ag arfarniadau, gyda rhai staff wedi cael eu harfarniad diwethaf yn 2012. Er bod y tîm rheoli'n cydnabod y broblem hon yn ystod y sesiwn adborth, ac yn rhoi sicrwydd y byddai rhoi sylw i'r broblem hon yn flaenoriaeth, mae'n hanfodol bod staff yn cael arfarniad unwaith y flwyddyn, gan roi blaenoriaeth i aelodau o staff nad oeddent wedi cael arfarniad ers rhwng un a thair blynedd. Roedd yr ystadegau a roddwyd yn dangos bod 23 aelod o staff yn Delfryn Lodge yn aros am arfarniad, ac 13 aelod o staff yn aros am arfarniad yn Delfryn House.

Roedd rhaglen o hyfforddiant gorfodol ar waith ar gyfer pob aelod o staff, gyda'r rhan fwyaf o'r modiwlau'n cael eu cwblhau ar-lein trwy ddefnyddio system Achieve. Gwnaeth dadansoddiad o'r ystadegau hyfforddiant ar-lein ddangos bod canrannau uchel o staff wedi diweddaru eu hyfforddiant. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi derbyn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol yn ystod y deuddeg mis diwethaf, a rhai staff yn manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant allanol.

Gwnaethom ofyn i staff a oeddent wedi derbyn hyfforddiant ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Iechyd Meddwl 1983, Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, a Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Roedd yr atebion ynglŷn â'r ddeddfwriaeth hon yn negyddol, naill ai ar gyfer rhannau o'r ddeddfwriaeth, neu'r ddeddfwriaeth i gyd. Mae'n hanfodol bod gan staff wybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd hyn, er mwyn sicrhau bod y gofal yn cael ei ddarparu yn unol â deddfwriaeth gyfredol.

Roedd yn bleser gennym nodi, ers ein hymweliad blaenorol ym mis Ebrill 2015, bod staff wedi derbyn hyfforddiant penodol ar anhwylderau personoliaeth sy'n perthyn i fenywod. Yn ogystal, mae staff seicoleg yn darparu sesiynau ar arferion myfyriol ar gyfer pob aelod o staff, ac roedd rhaglen cyfnewid gwybodaeth ar waith, lle roedd staff yn darparu hyfforddiant ar gyfer pob aelod o staff Ysbyty Delfryn, ar amrywiaeth o destunau sy'n benodol i'r gwasanaeth. Mae'r ddarpariaeth hyfforddiant ychwanegol hon yn faes nodedig, ac yn cynorthwyo yn y broses o wella gwybodaeth a sgiliau staff.

Gwnaeth trafodaethau â staff ac adolygiad o rotâu staff ddangos bod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio – a'u bod wedi cael eu defnyddio – er mwyn sicrhau bod niferoedd staff yn ddigonol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod diffyg tystiolaeth wedi'i dogfennu i ddangos bod gan yr aelod o staff asiantaeth y sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Mae'n hanfodol bod gan yr ysbyty fynediad at wybodaeth ynglŷn â sgiliau, gwybodaeth a phrofiad staff asiantaeth, cyn iddynt ddechrau ar sifft, er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys i weithio gyda'r grŵp cleifion.

**Camau gofynnol**

Mae'n rhaid i bob aelod o staff gael arfarniad blynyddol, gan roi pwyslais penodol ar y staff nad ydynt wedi cael arfarniad ers 2012.

Mae angen hyfforddiant ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Iechyd Meddwl 1983, Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn gymwys yn y meysydd hyn.

Mae'n hanfodol bod gan bob aelod o staff asiantaeth sy'n gweithio yn yr ysbyty sgiliau a phrofiad cyfredol, sy'n cael eu dogfennu er mwyn sicrhau ei fod yn gymwys i ddarparu gofal o ansawdd.

**Llywodraethu**

O dan Reoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig baratoi adroddiad ysgrifenedig ar y meysydd a restrir yn Rheoliad 28 ar gyfer AGIC bob chwe mis.  Nid yw AGIC wedi derbyn copïau o unrhyw adroddiadau a wnaed gan y darparwr cofrestredig.

**Cam gofynnol**

Mae angen cynnal ymweliadau Rheoliad 28 bob chwe mis, a rhaid anfon yr adroddiadau at AGIC.

## *Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl*

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol pump o'r cleifion a oedd yn derbyn gofal ar ddwy ward ar adeg ein hymweliad. Roedd y ffeiliau a adolygwyd gennym yn drefnus. Roedd yn hawdd dod o hyd i bethau ac roedd y nodiadau electronig yn cyd-fynd â'r copïau papur.

Roedd y ddau glinigydd cyfrifol newydd wedi dechrau eu swyddi, ac roeddent wrthi'n cwblhau asesiadau newydd o alluedd ar gyfer y grŵp cleifion. Ar adeg ein hymweliad, dau glaf yn unig a oedd yn aros i gael asesiad.

Roedd problemau yn codi o bryd i'w gilydd wrth ddod o hyd i staff meddygol a oedd yn meddu ar wybodaeth flaenorol am y claf, ac nid oedd dull o archwilio Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar waith.

**Cam gofynnol**

Mae'n rhaid llunio a gweithredu dull o archwilio Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

## *Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl*

Gwnaethom adolygu dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth tri chlaf yn Delfryn Lodge, a gwneud yr arsylwadau canlynol:

- Gwnaethom nodi bod yr asesiad risg wrth dderbyn un claf yn aneglur o ran y diffiniad o 'gyfredol' a sut roedd hyn yn cael ei adlewyrchu wrth bennu lefel y risg.
- Nid oedd yr asesiad risg dyddiol ar gyfer un claf yn adlewyrchu'n gywir y sbardunau a welwyd gan staff AGIC ar 22 Medi 2015.
- Roedd angen datblygu cynllun gofal un claf ynglŷn â hunan-niwed er mwyn i'r mater hwn gael ei reoli'n ddigonol yn y tymor byr.
- Nid oedd siart deiet y claf wedi cael ei gwblhau'n ddigonol, ac nid oedd yn dilyn y canllawiau a roddwyd.
- Roedd y ffurflen adolygu ar gyfer dosau uchel o gyffuriau gwrthseicotig wedi'i chwblhau mewn ffordd wael ac ynddi gamgymeriadau.
- Nid oedd rhai meysydd allweddol ar restr wirio derbyn cleifion wedi cael eu cwblhau ar gyfer un claf.
- Roeddem yn siomedig nodi ei bod wedi cymryd dros chwe wythnos i lunio cynllun gofal diabetig (arbennig).
- Nid oedd y dull o asesu iechyd corfforol wedi cael ei gwblhau ar gyfer un claf.
- Nid oedd yr asesiadau risg dyddiol wedi cael eu llofnodi gan y gweithiwr allweddol ac nid oeddent yn adlewyrchu sylwadau'r cleifion.
- Dim ond un ffurflen a oedd mewn fformat hawdd ei ddarllen – byddai'n briodol darparu rhagor ohonynt.
- Nid oedd y ffurflen monitro achosion o rwystro cleifion/tawelyddu cleifion yn gyflym wedi cael ei chwblhau yn unol â'r cyfarwyddyd a nodir.
- Roedd yn anodd canfod sut roedd y cynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol yn cyd-fynd â'r ddogfennaeth gyffredinol ar gyfer gofal y claf.

(Yn ystod y cyfarfod adborth, rhoddwyd llythrennau cyntaf enwau'r cleifion i'r ysbyty er mwyn sicrhau y gellid diwygio eu cynlluniau gofal a thriniaeth.)

**Cam gofynnol**

Mae'n rhaid mynd i'r afael â phob un o'r meysydd a nodwyd, gan gynnwys sicrhau bod asesiadau risg, siartiau deiet a ffurflenni meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir â gwybodaeth ddilys. Mae'n rhaid darparu rhagor o ddogfennau hawdd eu darllen, a dangos sut mae cynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol yn cyd-fynd â'r ddogfennaeth gyffredinol ar gyfer gofal.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae’n ofynnol i Ysbyty Delfryn gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad, a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi’r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty Delfryn yn cael eu hymdrin, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a chaiff ei werthuso yn rhan o’r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

*Atodiad A*
**Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella**
**Darparwr: Cambian Healthcare**
**Ysbyty: Delfryn House, Delfryn Lodge a Rhyd Alun**
**Dyddiadau'r arolygiad: 21, 22 a 23 Medi 2015**

| Rhif y dudalen | Cam gofynnol | Rheoliad | Cam gweithredu | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mae angen i'r holl eitemau bwyd sy'n cael eu storio mewn oergelloedd gael eu gwirio'n rheolaidd, er mwyn sicrhau eu bod o fewn y dyddiad dod i ben ac yn ddiogel i'w defnyddio. | 15 (9) (b) | Mae cynllun ar waith lle mae'r holl eitemau mewn oergelloedd yn cael eu gwirio bob nos, yn cael eu gwaredu yn ôl yr angen, ac yn cael eu cofnodi yn y ffeil waredu yn y gegin. | LB<br>NP | Cwblhawyd 22.09.15 |
| | Mae'n rhaid cofnodi tymheredd pob oergell bob dydd, ac mae'n rhaid i'r daflen gofnodi nodi'n eglur pa dymheredd sy'n perthyn i ba oergell. | 15 (9) (b) | Mae siartiau newydd ar gyfer monitro tymheredd oergelloedd wedi cael eu gweithredu, ac maent yn cael eu gwirio bob dydd gan y nyrs â gofal. | LB<br>Nyrs â Gofal | Cwblhawyd 24.09.15 |
| | Mae angen trwsio'r ffôn talu yn Delfryn Lodge er mwyn i'r cleifion ei | 26 (2) (b) | Cafodd y ffôn ei drwsio ar adeg yr arolygiad, ac mae'r adran cynnal a chadw'n ei wirio bob wythnos. | ST<br>NC | Cwblhawyd 29.09.15 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ddefnyddio. | | | | |
| | Mae angen adolygu'r materion sy'n rhwystro mynediad i ardd Delfryn Lodge, yn enwedig uchelder y ffens. | 26 (2) (a) | Cynhaliwyd trafodaethau â staff gofal y tîm amlddisgyblaethol a defnyddwyr gwasanaeth. Bwriad rhwystro mynediad i'r ardd yw hyrwyddo cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau therapiwtig yn ystod y dydd. Pan fydd y tywydd yn braf, mae'r cyfyngiadau'n cael eu gweithredu'n llai, gan y gall llawer o weithgareddau gael eu cynnal yn yr awyr agored. Fodd bynnag, mae'n rhaid i staff fod yn bresennol er mwyn sicrhau diogelwch, ac mae angen arsylwi ar gleifion oherwydd bod perygl y byddant yn niweidio eu hunain.<br>Trafodwyd y mater hwn ag arolygwyr ar adeg ein hymweliad, a daeth i'r casgliad na fyddai codi uchelder y ffens yn effeithio ar y mynediad cyfyngedig sydd ar waith ar hyn o bryd.<br>Bydd y tîm rheoli'n edrych ar ffyrdd o gynyddu mynediad ond ar yr un pryd sicrhau diogelwch cleifion. | ST<br>AD<br>Tîm Amlddisgyblaethol | Yn barhaus ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd. |
| | Mae angen cynnal gwiriadau bwyd a glendid yn y gegin therapi yn Delfryn Lodge, yn benodol i sicrhau bod | 15 (1) (b) a 19 (1) (b) | Gweler 15 (9) (b).<br>Mae gwiriadau dyddiol bellach yn cael eu cynnal. | LB<br>Staff Nos | Cwblhawyd 24.09.15 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | cypyrddau yn lân ac yn rhydd rhag briwsion bwyd, bod siwgr yn cael ei storio mewn cynwysyddion caeedig, a bod yr holl fwyd mae ei ddyddiad dod i ben wedi mynd heibio'n cael ei waredu mewn ffordd briodol. | | | | |
| | Mae angen adolygiad o apwyntiadau gofal iechyd allanol, er mwyn darganfod pa mor hir mae cleifion yn aros am apwyntiadau, a'r dulliau a ddefnyddir i hysbysu cleifion am wybodaeth ynglŷn ag apwyntiadau. | 15 (1) (a) (b) | Rhoddir cardiau apwyntiad i gleifion. Bydd Pennaeth Gofal yn cynnal archwiliad parhaus i sicrhau y gwneir apwyntiadau mewn modd amserol a bod cleifion yn cael eu hysbysu mewn ffordd effeithiol.<br>Trafodir unrhyw broblemau â meddygon teulu. Pe gwneid unrhyw gwynion pellach, fe fyddant yn derbyn sylw mewn modd amserol. | Penaethiaid Gofal | 09.11.15 |

*Atodiad A*
**Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella**
**Darparwr: Cambian Healthcare**
**Ysbyty: Delfryn House, Delfryn Lodge a Rhyd Alun**
**Dyddiadau'r arolygiad: 21, 22 a 23 Medi 2015**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mae angen adolygiad o gyfleusterau golchi dillad yn Delfryn Lodge, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon cryf i ymdopi â'r galw i olchi dillad, ac adolygiad o'r amserlen golchi dillad i sicrhau cysondeb. | 9 (1) (d) a<br>15 (1) (a) (b) | Mae peiriant arall wedi cael ei brynu a'i osod. Mae'r amserlen golchi dillad wedi cael ei hadolygu. | ST<br>NC | Cwblhawyd<br>29.09.15 |
| | Mae angen adolygiad o'r prydau bwyd sy'n cael eu gweini yn Delfryn Lodge, er mwyn darganfod a fyddai cael y prif bryd o fwyd amser te yn hytrach nag amser cinio yn diwallu anghenion y grŵp cleifion yn well. | 15 (9) (b) | Bydd y rheolwr arlwyo'n llunio a dosbarthu arolwg i gleifion ynglŷn â gweini ac amseru prydau bwyd. | LB<br>SM | 09.11.15 |

*Atodiad A*
**Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella**
**Darparwr: Cambian Healthcare**
**Ysbyty: Delfryn House, Delfryn Lodge a Rhyd Alun**
**Dyddiadau'r arolygiad: 21, 22 a 23 Medi 2015**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mae angen adolygiad o'r eitemau mae cleifion yn eu storio yn y gegin therapi, er mwyn darganfod sut mae cleifion eraill yn mynd ag eitemau, a phenderfynu pa gamau a roddir ar waith er mwyn atal hyn. | 15 (1) (a) (b) | Atgoffwyd staff i fonitro oergelloedd a sicrhau nad yw cleifion yn mynd â bwyd cleifion eraill. Bydd y sefyllfa'n cael ei monitro trwy gyfarfodydd cymunedol. Pe gwneid unrhyw gwynion pellach, fe fyddant yn derbyn sylw mewn ffordd amserol. | LB<br>Pennaeth Gofal | 23.10.15 |
| | Mae'n rhaid i bob aelod o staff gael arfarniad blynyddol, gan roi pwyslais penodol ar y staff nad ydynt wedi cael arfarniad ers 2012. | 20 (2) (a) | Rhoddwyd sicrwydd ar adeg yr arolygiad y gellid cwblhau pob arfarniad o fewn pythefnos. Mae tystiolaeth o hyn eisoes wedi cael ei hanfon at AGIC. | ST<br>LB | Cwblhawyd<br>12.10.15 |
| | Mae angen hyfforddiant ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Iechyd Meddwl 1983, y | 20 (2) (a) a 21 (2) (b) | Cwblhawyd cais am hyfforddiant ar ddiwrnod yr arolygiad. Cafodd hyfforddiant ei drefnu ar gyfer 11 Tachwedd, gyda dyddiad arall i ddilyn. | SD | Cwblhawyd yn ystod yr arolygiad |

*Atodiad A*
**Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella**
**Darparwr: Cambian Healthcare**
**Ysbyty: Delfryn House, Delfryn Lodge a Rhyd Alun**
**Dyddiadau'r arolygiad: 21, 22 a 23 Medi 2015**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn gymwys yn y meysydd hyn. | | | | |
| | Mae'n hanfodol bod gan bob aelod o staff asiantaeth sy'n gweithio yn yr ysbyty sgiliau a phrofiad cyfredol, sy'n cael eu dogfennu er mwyn sicrhau bod yr aelod o staff yn gymwys i ddarparu gofal o ansawdd. | 21 (1) (a) (b) | Mae ffeil bellach ar waith yn sgil cyfarfod â'n hasiantaeth ddarparu arferol. Anfonwyd e-bost at bob aelod o staff er mwyn eu hysbysu am y gofynion. Ni ddefnyddiwyd staff asiantaeth ers yr arolygiad. | LB | Cwblhawyd yn ystod yr arolygiad. |
| | Mae angen cynnal ymweliadau Rheoliad 28 bob chwe mis, a rhaid | (28 (1) (2) (a) (b) (c) (3) (4) (a) (b) (c) a (5) (a) (b) (c) | Bydd ymweliad Rheoliad 28 yn cael ei gynnal a'r adroddiad yn cael ei anfon at AGIC erbyn 6 Tachwedd 2015. Bydd ymweliadau rheolaidd yn cael eu cynnal bob chwe mis wedyn. | NR | Mae proses barhaus bellach ar waith. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | anfon yr adroddiadau at AGIC. | | | | |
| | Mae'n rhaid mynd i'r afael â phob un o'r meysydd a nodwyd, gan gynnwys sicrhau bod asesiadau risg, siartiau deiet a ffurflenni meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir â gwybodaeth ddilys. Mae'n rhaid darparu rhagor o ddogfennau hawdd eu darllen, a dangos sut mae cynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol yn cyd-fynd â'r ddogfennaeth gyffredinol ar gyfer gofal. | 15 (9) (a) a 23 (1) (a) (i) | Cwblhawyd Roedd pob cam gweithredu a nodwyd wedi derbyn sylw ac wedi'i gwblhau erbyn 24.09.15. | | Cwblhawyd 24.09.15 |

***Atodiad A***
**Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella**
**Darparwr: Cambian Healthcare**
**Ysbyty: Delfryn House, Delfryn Lodge a Rhyd Alun**
**Dyddiadau’r arolygiad: 21, 22 a 23 Medi 2015**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'n rhaid llunio a gweithredu dull o archwilio’r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. | Amherthnasol | Cafodd y dull hwn ei lunio a'i weithredu yn ystod yr arolygiad. | | Cwblhawyd 23.10.15 |

Allwedd

NR = Nick Ruffley (Cyfarwyddwr Gweithrediadau/Unigolyn a Enwir)
ST = Shani Tanti (Cyfarwyddwr yr Ysbyty)
LB = Laura Blythe (Dirprwy Gyfarwyddwr yr Ysbyty)
SD = Suzanne Duff (Pennaeth Gofal Dros Dro)
SM = Sharon Morris (Rheolwr Arlwyo)
NC = Neil Cheetham (Cynnal a Chadw)
AD = Andy Daniels (Rheolwr Ystadau)